


Darn Darllen 1

# Dros ddau gant o gyrff marw ar Everest

Ers canol 2011, mae Everest wedi hawlio bywydau dros 216 (hyd y gwyddom) o ddringwyr. Caiff yr ardal uwchben 26,000 troedfedd ei hadnabod fel Parth Marwolaeth a rhaid i bawb, ar wahân i'r dringwyr mwyaf profiadol, anadlu ocsigen ffres o ganistr yno. Mae'r gwasgedd atmosfferig tua thraean yr hyn yw ar lefel y môr, sy'n golygu mai traean yr ocsigen sydd ar gael yno. Mae'r aer mor denau nes ei bod yn amhosibl nôl cyrff rhai dringwyr marw. Felly, i lawer sy'n cymryd eu hanadl olaf ar Everest, dyma'r fan lle maent yn gorffwys am byth.

## Hanes Sergei a Francys Arsentiev

"*Plis, peidiwch â 'ngadael i!*" erfyniodd y wraig oedd ar fin marw ar lethrau Everest. Clywodd dau ddringwr, sef Ian Woodall a Cathy O'Dowd, gri Francys Arsentiev, dringwraig o America a oedd wedi disgyn oherwydd ei bod wedi mynd yn ddall yn yr eira ac wedi cael ei gwahanu oddi wrth ei gŵr, Sergei. Roedden nhw ym Mharth Marwolaeth a'u cyflenwad ocsigen yn isel, ac roedd y wraig ar ochr dibyn serth. Byddai'r daith i lawr i'w chyrraedd yn rhoi bywydau Ian a Cathy yn y fantol, heb sôn am geisio'i chario'n ôl i fyny wedyn.

Er gwaetha'r peryglon, dringodd Ian a Cathy i lawr at Fran a rhoi hynny o gymorth a allent iddi. Ond roedd hi'n rhy hwyr. Er i Ian a Cathy ofalu am Fran a rhoi ocsigen iddi, nid oedd dim mwy y gallent ei wneud. Bu farw Fran a bu'n rhaid iddynt ei gadael yno. Aeth Ian a Cathy yn ôl i'r Base Camp i chwilio am gymorth ac i roi gwybod i'r awdurdodau.

Yn ddiweddarach, cafwyd peth o hanes yr hyn ddigwyddodd i ŵr Fran. Roedd yntau wedi diflannu tua'r un amser â hi, a dim ond ei bicell a'i raff a ganfuwyd. Ond ar y diwrnod y bu Fran farw, roedd dringwyr eraill wedi gweld Sergei yn llawer is ar y mynydd na Fran, wedi i'r ddau gael eu gwahanu. Mewn ymdrech i chwilio am ei wraig, roedd Sergei wedi mynd yn ôl i fyny'r mynydd, er nad oedd ganddo ddigon o ocsigen a'i fod yn dechrau dioddef o ewinrhew (*frostbite*). Mae'n debyg ei fod wedi cyrraedd y dibyn lle roedd Fran ond wrth iddo ddringo i lawr ati, llithrodd a syrthio i'w farwolaeth.

Wyth mlynedd yn ddiweddarach, dychwelodd Ian a Cathy yno er mwyn rhoi rhyw fath o angladd i Fran. Rhoesant faner Unol Daleithiau'r America dros ei chorff, ynghyd â thegan meddal a nodyn ffarwél gan ei theulu.

## Eraill a fu farw ar Everest

Mae'n debyg fod cyrff marw i'w gweld mewn sawl man ar Everest gan nad yw'n bosibl nôl pob un corff oddi ar y mynydd. Un o'r rhai enwocaf yw "Green Boots", sef dringwr o'r India o'r enw Tsewang Paljor oedd mewn grŵp o dri oedd yn ceisio dringo mynydd ucha'r byd ym 1996. Ond bu storm eira ddrwg iawn, a chollodd Tsewang ei gyfeillion. Cysgododd mewn ogof fechan, ond mae ei gorff yn dal yno hyd heddiw, a'i esgidiau gwyrdd i'w gweld yn amlwg.

Gŵr arall a gollodd ei fywyd ar y mynydd oedd George Mallory, dringwr enwog o Loegr a geisiodd fod yn un o'r rhai cyntaf i ddringo Everest ym 1924. Ond syrthiodd i'w farwolaeth ac ni ddaethpwyd o hyd i'w gorff hyd 1999.

Mae gweld y cyrff ar y mynydd yn siŵr o fod yn brofiad erchyll, ond mae'n anghredadwy hefyd. Nid yw'r cyrff yn pydru gan fod y tywydd mor fileinig o oer. Er hyn, i bobl Nepal mae'r mynydd yn sanctaidd ac nid ydynt am ei weld yn cael ei droi'n fynwent. Mae teuluoedd rhai o'r meirw yn gofyn am i'r cyrff gael eu gadael ar y mynydd, ond mae hyn yn groes i gyfraith Nepal. Cyn gynted ag y bydd y tywydd yn caniatáu i bobl gyrraedd corff, rhaid ei nôl ar gyfer ei adnabod a'i gladdu. Mae'r cyrff na ellir eu cario i lawr o'r mynydd yn cael eu gorchuddio â cherrig er mwyn eu gwarchod rhag yr elfennau a rhag i ddringwyr eraill eu gweld.

## Darn Darllen 2

# O leiaf 3,600 wedi marw mewn daeargryn yn Nepal



Mae nifer y bobl fu farw yn sgil daeargryn enfawr yn Nepal yn parhau i godi, ac adroddiadau'n dweud fod o leiaf 3,600 wedi cael eu lladd hyd yn hyn. Mae dros 6,500 o bobl wedi cael eu hanafu hefyd, gyda thimau achub yn dweud bod degau o filoedd o bobl yn cysgu ar y strydoedd a chymunedau gwledig yn ei chael hi'n anodd ymdopi.

Ddeuddydd wedi i'r daeargryn, a oedd yn mesur 7.8 ar raddfa Richter, daro ardal y brifddinas Kathmandu, mae cannoedd o ôl-ddaeargrynfeydd a thirlithriadau yn gwneud gwaith y timau achub yn anodd iawn. Dyma'r daeargryn mwyaf i daro Nepal ers dros 80 o flynyddoedd. Yn ogystal ag achosi difrod enfawr yn Nepal, mae pobl wedi cael eu lladd yn India a Tsieina hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio wedi colli eu cyflenwad dŵr a thrydan, ac mae prinder gwelyau a chyflenwadau brys yn yr ysbytai, yn ôl adroddiadau.

## Everest

Mae lle i gredu bod o leiaf 18 o bobl wedi cael eu lladd ar fynydd Everest yn dilyn cwymp eira o ganlyniad i'r daeargryn. Roedd dyn o Langyndeyrn ar fynydd uchaf y byd adeg y daeargryn, ond cafodd ei deulu wybod ei fod yn ddiogel. Roedd Nia Jenkins o'r Felinheli, ger Bangor, yn Base Camp, Everest, dair wythnos cyn y daeargryn er mwyn codi arian at Ymchwil Canser Cymru. Dywedodd ei bod yn pryderu a fydd y wlad yn medru ailsefydlu ei hun yn dilyn y daeargryn:

"Roedden ni yn Base Camp dair wythnos yn ôl – mae'n ddychrynllyd. Rydw i wedi siarad efo rhai o'r criw oedd yn ein harwain ni i fyny'r mynydd – mae ein tywysydd ni yn iawn ond mae o wedi bod yn trio cael gafael ar weddill y tîm. Dydyn nhw ddim yn gallu dod i lawr o'r mynydd achos bod y llwybrau wedi cael eu dinistrio. Mae pobl sy'n uwch na Base Camp yn sownd yno, a dim ond hofrennydd all fynd atyn nhw. Mae hi'n wlad dlawd iawn – dw i ddim yn gwybod sut y byddan nhw'n ymdopi. Roeddwn i wedi dychryn pa mor dlawd ydi hi yno a dydyn nhw ddim yn medru dechrau cael trefn yno gan fod daeargrynfeydd llai yn dal i ddigwydd."

**Ffynhonnell**
y testun o wefan golwg360

## Darllen

1. Ar ôl darllen Darn Darllen 1, ticiwch bob un o'r brawddegau canlynol sy'n gywir:

*(Adalw gwybodaeth)*

   a. Parth Marwolaeth yw'r enw a roddir ar ran isaf mynydd Everest. ☐
   b. Dim ond dringwyr mwyaf profiadol all ddygymod heb ocsigen o ganistr uwchlaw 26,000 troedfedd. ☐
   c. Daeth Ian Woodall a Cathy O'Dowd yn ôl i Nepal i roi rhyw fath o angladd i Francys Arsentiev naw mlynedd ar ôl iddi farw. ☐
   ch. Dringwr o Tsieina oedd Tsewang Paljor a fu farw wrth geisio dringo Everest ym 1996. ☐
   d. Roedd George Mallory yn ceisio bod yn un o'r rhai cyntaf i ddringo mynydd ucha'r byd pan fu farw ym 1924. ☐
   dd. Mae mynydd Everest yn sanctaidd i bobl Nepal. ☐

2. Ar ôl darllen Darn Darllen 2, gorffennwch y brawddegau canlynol yn gywir drwy ddefnyddio llinellau i'w cysylltu:

*(Adalw gwybodaeth)*

| | |
|---|---|
| Yn sgil y daeargryn yn Nepal bu farw | ar raddfa Richter |
| Roedd nifer y bobl a gafodd eu hanafu | o leiaf 3,600 o bobl |
| Roedd y daeargryn yn mesur 7.8 | codi arian at Ymchwil Canser Cymru |
| Roedd Nia Jenkins yn Base Camp er mwyn | dros 6,500 |
| Cafodd o leiaf 18 o bobl eu lladd ar Everest yn dilyn | y llwybrau wedi cael eu dinistrio |
| Ni allai pobl ddod i lawr o'r mynydd achos bod | cwymp eira o ganlyniad i'r daeargryn |

3. Ceisiwch ddod o hyd i ansoddeiriau yn y ddau Ddarn Darllen sy'n cyfleu'r erchylltra a'r caledi mae pobl yn eu hwynebu ar Everest. Mae hyd at chwe ansoddair yno i gyd.

*(Deall cyd-destun)*

________________________________________

________________________________________

________________________________________

4. Beth yw prif bwrpas Darn Darllen 2?

*(Nodi pwrpas testun)*

   a. rhoi gwybodaeth am farwolaethau ar Everest ☐
   b. rhoi gwybodaeth am ddringwyr sy'n dringo Everest ☐
   c. rhoi gwybodaeth am y daeargryn yn Nepal ☐
   ch. rhybuddio pobl o beryglon dringo Everest ☐

5. Cysylltwch y geiriau ar y chwith isod gyda'r ystyr cywir ar y dde. Efallai y bydd o gymorth i chi chwilio am y geiriau yn Narn Darllen 1 a darllen y brawddegau lle gwelir nhw:

*(Deall cyd-destun, aralleirio)*

| | |
|---|---|
| yn sgil | person sy'n arwain |
| ymdopi | difetha |
| lle i gredu | dod i ben â gwneud rhywbeth |
| pryderu | o ganlyniad i |
| tywysydd | rhywfaint o dystiolaeth |
| dinistrio | poeni |

## Llafaredd

*Gwaith grŵp*

6. Mewn grwpiau o bedwar neu bump, trafodwch beth sy'n symbylu dringwyr i ddringo i ben mynyddoedd peryglus fel Everest. A yw'n deg eu bod yn gofyn i dywyswyr roi eu bywydau eu hunain mewn perygl er mwyn iddynt hwy (y dringwyr) allu cyrraedd copa mynydd ucha'r byd? (5–6 munud)

7. Sagarmatha yw enw brodorion Nepal ar fynydd ucha'r byd ond mae'n cael ei adnabod drwy'r byd bellach fel Everest, ar ôl gŵr o'r enw George Everest a oedd yn arwain yr arolwg a gadarnhaodd mai Everest oedd mynydd ucha'r byd. Trafodwch a yw'n dderbyniol fod pobl o wledydd eraill yn anwybyddu enwau brodorol ac yn rhoi eu henwau eu hunain ar fynyddoedd neu fannau amlwg eraill megis trefi neu lynnoedd, fel sydd wedi digwydd sawl gwaith yng Nghymru. (Grwpiau o 4/5, 7–8 munud)

## Ysgrifennu

8. Ymchwiliwch i ganfod mwy o hanes y daeargryn a fu yn Nepal ym mis Ebrill 2015. Yna ysgrifennwch adroddiad papur newydd yn rhoi darlun o'r hyn ddigwyddodd ac yn rhoi sylw i'r prif ddigwyddiadau. (300 gair)

9. Dychmygwch eich bod wedi penderfynu cynnal gweithgaredd i godi arian i helpu'r rhai a ddioddefodd yn sgil y daeargryn yn Nepal. Ysgrifennwch daflen wybodaeth i'w dosbarthu ymhlith busnesau lleol yn gofyn iddynt gefnogi'r digwyddiad drwy gyfrannu arian neu nwyddau i'w gwerthu. Dylech gynnwys manylion yn y daflen a fydd yn ysgogi'r darllenydd i gyfrannu. (250–300 gair)